**Cwestiynau Cyffredin**

Rydyn ni’n gobeithio bod y dudalen hon yn ateb rhai o'ch cwestiynau am Ŵyl Caws Caerffili.

Cofiwch ymweld â'n gwefannau a'n cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth – www.caerphillycheesefestival.co.uk/cy/ / www.visitcaerphilly.com/cy/ / **@VisitCaerphilly**

Os na allwch chi ddod o hyd i ateb i'ch cwestiwn yma neu ar y wefan, cysylltwch â Digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu ffonio 01443 866390.

1. **Beth yw oriau agor y digwyddiad?**
   9am – 5pm

2. **Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i'r digwyddiad?**
   Nac oes, mae mynediad **AM DDIM** i'r digwyddiad hwn.

3. **Ydy cŵn yn cael eu caniatáu?**
   **Ydyn**, mae cŵn yn cael eu caniatáu yn y digwyddiad, ac eithrio ardal y ffair hwyl. Mae cŵn tywys yn cael eu caniatáu ym mhob man.

   **Sylwer:** er bod croeso i gŵn yng Ngŵyl Caws Caerffili, rydyn ni’n cynghori perchnogion sy'n bwriadu dod â'u cŵn i fod yn ofalus oherwydd y nifer uchel o bobl. Rydyn ni’n gofyn i berchnogion ystyried lles eu cŵn a phobl eraill. Mae perchnogion sy'n dod â chŵn i’r digwyddiad yn gwneud hynny ar eu menter ac atebolrwydd eu hunain.

4. **Ble alla i ddod o hyd i'r stondinau caws, bwyd a diod?**
   Yng nghanol y dref ym Maes Parcio’r Twyn.

5. **Ble alla i ddod o hyd i'r stondinau gwybodaeth, crefftau ac arddangosfeydd?**
   Yng nghanol y dref ledled y brif stryd, ac mae rhai wedi'u lleoli y tu ôl i Gastell Caerffili wrth ymyl Crescent Road. Mae modd cyrraedd yr ardal hon o ganol y dref, naill ai drwy Barc Dafydd Williams neu ar hyd Rhodfa’r Pysgotwyr o amgylch Castell Caerffili. Nid oes mynediad uniongyrchol drwy Gastell Caerffili. Mae ffi am fynediad i'r castell.

6. **Ble alla i ddod o hyd i fariau sy'n gweini alcohol?**

Mae un bar ger Llwyfan Cerddoriaeth Bach Ffos y Castell yng nghanol y dref gyferbyn â Sports Direct. Mae pedwar bar ger Prif Lwyfan Cerddoriaeth y Tŵr Cam y tu ôl i’r Castell wrth ymyl Crescent Road. Mae modd cyrraedd yr ardal hon o ganol y dref, naill ai drwy Barc Dafydd Williams neu ar hyd Rhodfa’r Pysgotwyr o amgylch Castell Caerffili. Nid oes mynediad uniongyrchol drwy Gastell Caerffili. Mae ffi am fynediad i'r castell.
Mae gan ganol y dref lawer o dafarndai i eistedd ynddyn nhw ai’u mwynhau.

### 7. A oes modd i mi ddod ag alcohol i'r digwyddiad?

Ni chewch chi ddod ag alcohol i safle'r digwyddiad. Dim ond yn yr ardaloedd yfed dynodedig y mae modd prynu ac yfed alcohol ger y ddau lwyfan cerddoriaeth neu yn y tafarndai a'u gerddi cwrw dynodedig. Bydd staff diogelwch yn monitro pob mynedfa ac yn sicrhau bod alcohol yn cael ei gymryd oddi ar unrhyw ymwelwyr sy'n ceisio dod ag alcohol i'r safle. Mae unrhyw alcohol sy’n cael ei brynu o'r stondinau diodydd ym Maes Parcio’r Twyn i'w yfed oddi ar y safle.

### 8. A oes modd i mi ddod â phicnic i'r digwyddiad?

Oes. Mae croeso i chi gael picnic ac mae digon o seddi ar gael o amgylch y safle, yn ogystal ag ardal dawelach ym Mharc Dafydd Williams neu Barc Morgan Jones os ydych chi am ymlacio gyda'ch blancedi a'ch cadeiriau eich hun. Ni fydd modd dod ag alcohol i safle'r digwyddiad.

### 9. Ble alla i ddod o hyd i gonsesiynau bwyd poeth?

Mae consesiynau bwyd yng nghanol y dref a ger prif lwyfan cerddoriaeth y Tŵr Cam sydd wedi'i leoli y tu ôl i’r Castell wrth ymyl Crescent Road. Mae modd cyrraedd yr ardal hon o ganol y dref, naill ai drwy Barc Dafydd Williams neu ar hyd Rhodfa’r Pysgotwyr o amgylch Castell Caerffili. Nid oes mynediad uniongyrchol drwy Gastell Caerffili. Mae ffi am fynediad i'r castell.
Mae gan ganol y dref lawer o dafarndai i eistedd ynddyn nhw ai’u mwynhau.

### 10. Ble alla i ddod o hyd i'r ffair bleser a gweithgareddau i blant?

Y tu ôl i Gastell Caerffili ar hyd Crescent Road. Mae modd cyrraedd yr ardal hon o ganol y dref, naill ai drwy Barc Dafydd Williams neu ar hyd Rhodfa’r Pysgotwyr o amgylch Castell Caerffili. Nid oes mynediad uniongyrchol drwy Gastell Caerffili. Mae ffi am fynediad i'r castell.

### 11. Oes unrhyw gyfleusterau parcio a theithio?

Nid oes unrhyw gyfleusterau parcio a theithio i’r digwyddiad; fodd bynnag, mae cyfleusterau parcio a cherdded **AM DDIM** yn Ysgol Gyfun Martin Sant, Hillside CF83 1UW; Campws y Gwyndy Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Heol Pontygwindy CF83 3HG; Cae Chwarae Owain Glyndwr CF83 1AB

### 12. Pa drefniadau parcio sydd ar gael yn y digwyddiad?

Yn ogystal â'r cyfleusterau parcio a cherdded am ddim uchod, mae meysydd parcio cyhoeddus ar gael yn y lleoliadau canlynol:

- Maes parcio Station Terrace CF83 1HD (talu ac arddangos)
- Cyfleuster Parcio a Theithio Caerffili CF83 1JU (AM DDIM)
- Maes parcio Crescent Road CF83 1AB (talu ac arddangos)

- Morrisons / Canolfan Siopa Cwrt y Castell CF83 1XP (AM DDIM, hyd at 3 awr)

Gallwch chi ddod o hyd i fap parcio ar **Wefan Gŵyl Caws Caerffili**, **Tudalen Facebook**, **gwefan Croeso Caerffili** a thudalennau'r cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnwys lleoliadau parcio i bobl anabl a lleoliadau rheseli beiciau.

### 13. Ydy'r safle'n hygyrch?

Mae'r digwyddiad wedi'i gynllunio i fod mor hygyrch a chroesawgar â phosibl. Mae'r safle yn cynnwys cymysgedd o lwybrau cerdded palmantog, ffyrdd tarmac caeedig, ac ardaloedd glaswellt. Mae'r holl lwybrau yn hygyrch, er bod lefelau'r ddaear yn amrywio ar draws y safle. Gall y rhannau glaswellt fod yn fwy anwastad, a allai wneud symud ychydig yn fwy heriol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu ymwelwyr â symudedd cyfyngedig. Mae toiledau hygyrch ar gael ar draws safle'r digwyddiad, gan sicrhau bod amwynderau hanfodol yn parhau i fod o fewn cyrraedd hawdd.

### 14. Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i Gastell Caerffili?

Oes, mae tâl yn cael ei godi am ymweld â'r Castell yn ystod y digwyddiad

| **Categori** | **Pris** |
|---|---|
| Aelodau | AM DDIM |
| Oedolion | £13.50 |
| Teulu (2 oedolyn a hyd at 3 o blant) | £43.30 |
| Teulu (1 oedolyn a hyd at 3 o blant) | £29.80 |
| Person anabl a chydymaith | AM DDIM |
| Pobl iau (5-17 oed) / myfyrwyr | £9.40 |
| Pobl hŷn (65 oed a hŷn) | £12.10 |

Am ragor o wybodaeth, ewch **yma**.

### 15. Oes sioe tân gwyllt?

**DOES DIM** sioe tân gwyllt yn y digwyddiad hwn.

### 16. Pryd mae'r ffair bleser ar agor?

Y ddau ddiwrnod, 9am–5pm
Ar y ddau ddiwrnod rhwng 9am a 10am, bydd awr dawel yn y ffair heb unrhyw gerddoriaeth yn cael ei chwarae ar y reidiau.

### 17. Sut ydw i'n cymrud rhan yn y digwyddiad fel masnachwr?

Llenwch y ffurflen hon: **Ffurflen Gais Digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2026 – Llenwi'r ffurflen**

### 18. Pryd a ble mae'r adloniant?

Bydd cerddoriaeth fyw ac adloniant ledled canol y dref ac y tu ôl i Gastell Caerffili. Mae'r holl raglenni adloniant ar gael ar wefan Gŵyl Caws Caerffili a gwefan Croeso Caerffili, a bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Gŵyl Caws Caerffili a Croeso Caerffili. Mae 2 ardal gerddoriaeth yn y digwyddiad:

- Llwyfan Cerddoriaeth Bach Ffos y Castell (canol y dref gyferbyn â Sports Direct)
- Prif Lwyfan Cerddoriaeth y Tŵr Cam (y tu ôl i Gastell Caerffili wrth ymyl Crescent Road.)

## 19. Oes toiledau ar gael?

Mae toiledau cludadwy ar draws safle'r digwyddiad yng nghanol y dref ac y tu ôl i Gastell Caerffili, gyda nifer ohonyn nhw ym Maes Parcio’r Twyn. Mae toiledau hefyd ar gael yn Llyfrgell Caerffili a Ffos Caerffili yn ystod oriau agor y safleoedd hyn. Mae modd dod o hyd i gyfleusterau toiledau cyhoeddus eraill gan ddefnyddio'r **Map Toiledau Cenedlaethol**.

## 20. Oes peiriant codi arian parod?

Mae peiriannau codi arian parod ar gael ar hyd Cardiff Road.

## 21. Mae gen i gwestiwn sydd heb gael ei ateb yn y ddogfen hon.

I holi am y digwyddiad yn gyffredinol, anfonwch e-bost i **Digwyddiadau@caerffili.gov.uk** neu ffonio 01443 866390.